# EICH CANLLAW I GYNLLUNIO CINIO MAWR

**PRYD:** ..........................................

**BLE:** ...................................................................

## DYMA RAI AWGRYMIADAU I HELPU I ROI CYNLLUNIAU AR WAITH:

- **Rhannwch y syniad a gweld pwy sy'n hapus i helpu**
  Sgwrsiwch â chymydog neu ddau, postiwch ar grŵp Facebook lleol neu rhowch nodyn trwy rai blychau llythyrau yn cyflwyno'ch hun a'r syniad.

- **Dewiswch ddyddiad, amser a lle**
  Penwythnos y Cinio Mawr yw 1-2 Mehefin neu ymunwch unrhyw bryd drwy gydol Mis y Gymuned.

- **Sicrhewch unrhyw ganiatâd sydd ei angen ar gyfer eich lleoliad, neu gwnewch gais i gau eich ffordd**
  Mae'n well gwneud hyn cyn gynted â phosib gan fod rhai cynghorau angen hyd at 3 mis o rybudd.

- **Penderfynwch a fyddwch chi'n codi arian**
  A oes rhywbeth sy'n bwysig i'ch cymuned? Mae'r Cinio Mawr yn gyfle gwych i godi arian at elusen neu achos lleol.

- **Anfonwch wahoddiadau a hongiwch bosteri**
  Meddyliwch am rannu'n ddigidol os oes gennych chi grŵp WhatsApp neu Facebook.

- **Cynlluniwch beth fyddwch yn ei darparu**
  Gwahoddwch bobl i ddod â bwyd, platiau, cyllyll a ffyrc neu hyd yn oed cadair neu ddwy.

- **Ychwanegwch rywbeth bach ychwanegol**
  Chwaraewch ychydig o gerddoriaeth, addurnwch ar gyfer y diwrnod neu trefnwch rai gemau - mae llawer o syniadau ar **YCinioMawr.com** sy'n garedig i'ch pwrs a'r blaned.

- **Cadwch olwg ar ragolygon y tywydd**
  Sicrhewch fod gennych gynllun B neu anogwch bobl i ddod ag ymbarél i'w rannu fel bod pawb yn gyfforddus.

- **Mwynhewch y diwrnod, a thynnwch ddigonedd o luniau!**
  Rhannwch eich straeon a'ch lluniau a thagiwch **@edencommunities**

## NODIADAU, SYNIADAU A PHETHAU I'W COFIO:

y cinio mawr / the big lunch
eden project
THE NATIONAL LOTTERY
MEWN PARTNERIAETH GYDA PARTNERED BY
Iceland | the food WAREHOUSE
GREENE KING